

*Patrwm cyflwyno o fis Ebrill i fis Medi**Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddysgu sut i drin ystadegau a data ar Gyfnod Allweddol 2–4. Yn ogystal â gwella'r ffordd y maent yn meddwl yn ystadegol, byddant yn dysgu am ddulliau addysgu gwahanol, gan gynnwys defnyddio adnoddau TGCh, megis y cyfrifiannell graffeg a chyfrifiadur. Nid oes unrhyw esboniad ffurfiol: mae'r asesiad yn seiliedig ar dri asesiad sydd wedi'u marcio gan diwtoriaid ac asesiad diwedd modiwl. Er mwyn cwblhau'r asesiadau hyn, bydd angen i fyfyrwyr gael mynediad at o leiaf un dysgwr ystadegau (mwy yn ddelfrydol) yn ystod Cyfnodau Allweddol 2–4.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad eang o ysgolion y DU ac addysg mathemateg y DU
- gwybodaeth eang am addysg mathemateg ac ystadegau
- profiad o ddefnyddio TGCh ym maes addysg mathemateg
- profiad o addysgu oedolion.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o gynnal hyfforddiant mathemateg mewn swydd
- gradd uwch mewn addysg mathemateg
- papurau cyhoeddedig ar addysg mathemateg
- diddordeb mewn addysg mathemateg yn rhyngwladol
- defnyddio cyfrifiannell graffeg (TI-83 Plus neu TI-84 Plus)

*Gwybodaeth ychwanegol*

Gan y bydd gan fyfyrwyr ar y modiwl hwn ddewis i gyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy'r system eTMA, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynwyd yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, yn y ffurflen ragnodedig, i'r system eTMA. Os cewch eich gwahodd am gyfweliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o ganllawiau ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael pe byddech yn cael eich penodi i'r rôl.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	3

Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	1
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	4
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	5

*Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.*